# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 28 Chwefror 2024 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MAWRTH, 5 MAWRTH 2024** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2023 (copi ynghlwm).

**5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2024** (Tudalennau 15 - 18)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 573053** (Tudalennau 19 - 42)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau wneud penderfyniad ynglŷn â chais gan Ymgeisydd Rhif 573053 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Bobby Feeley (Cadeirydd)
Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield
Ellie Chard
Gwyneth Ellis
Alan James
Brian Jones
Delyth Jones
Paul Keddie
Win Mullen-James
Andrea Tomlin

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 6 Rhagfyr 2023 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ellie Chard, Gwyneth Ellis, Bobby Feeley (Cadeirydd), Hugh Irving (Is-gadeirydd), Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Paul Keddie, a Win Mullen-James

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (LB), Rheolwyr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Technegol – Iechyd yr Amgylchedd (MM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Trwyddedu (ES), Swyddogion Gorfodi – Trwyddedu (KB a NS), a Gweinyddwyr Pwyllgorau KEJ a SJ [Gweddarlledwr])

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Andrea Tomlin

**2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Brian Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 9 ar y rhaglen – Adolygiad o Drwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat oherwydd iddo ddod yn ymwybodol, unwaith iddo weld y Gyrrwr dan sylw, ei fod yn hysbys iddo. Gadawodd y Cynghorydd Jones y cyfarfod tra cafodd yr eitem hon ei thrafod.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

**5 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD A PHRISIAU CERBYDAU HACNI**

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (PPBM) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru'r aelodau ar adolygiad y prisiau cyfredol ar gyfer cerbydau hacni (tacsis), gan gyflwyno nifer o opsiynau i'w hystyried.

Roedd y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Medi 2023 wedi ystyried adroddiad ar gynigion i gynyddu'r tariffau presennol ac wedi awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar gynnydd o 5% (wedi'i dalgrynnu i'r % llawn agosaf) yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro. Darparwyd manylion yr ymgynghoriad statudol ynghyd â'r ymatebion a gafwyd, gan gynnwys dadansoddiad o'r ymatebwyr (masnach/cyhoeddus), y rhai a oedd o blaid cynnydd o 5% (14), y rhai yn erbyn cynnydd o 5% (37) a'r rhai a oedd o blaid cynnydd dros 5% (9). Darparwyd tabl cymharu o bob tariff yn seiliedig ar filltiroedd llawn yn ogystal. Roedd adolygiad y prisiau yn ychwanegol at yr adolygiad sy'n cyd-fynd ag adolygiad y gyfrifiannell tariffau (a argymhellir gan yr Ymgynghorydd Trwyddedu yn dilyn yr adolygiad prisiau yn 2022) ac roedd yn dibynnu ar ddata gan y fasnach drwyddedig. Roedd y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo, a chyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal ym mis Tachwedd 2023 gyda deiliaid trwydded a oedd wedi mynegi diddordeb i gyfrannu.

Arweiniodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yr aelodau drwy fanylion yr adroddiad, gan ymhelaethu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau eraill. Roedd hyn yn cynnwys yr effaith ar y fasnach tacsis a defnyddwyr tacsis o ganlyniad i gynnydd yn y prisiau, effaith anuniongyrchol bosibl ar y gyllideb cludiant ysgol, a chostau cysylltiedig â mesuryddion tacsi yn cael eu graddnodi. Gofynnwyd i'r Aelodau roi ystyriaeth i'r opsiynau canlynol -

- cadw'r tabl ffioedd presennol
- cadw'r tabl ffioedd presennol wrth aros am ganlyniad adolygiad y gyfrifiannell ffioedd a chyfeirio'n ôl yng nghyfarfod Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol er mwyn ei ystyried
- cymeradwyo'r cynnig i gynyddu'r ffi o 5% fel yr ymgynghorwyd
- cymeradwyo cynnydd gwahanol

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad a'r opsiynau oedd ar gael iddynt, gan amlygu'r anawsterau a gyflwynwyd o ystyried y diffyg barn bendant yn deillio o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Codwyd cwestiynau gyda Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd a esboniodd fod y gyfrifiannell tariff yn darparu methodoleg ar gyfer cyfrifo prisiau tocynnau yn y dyfodol, ond ei fod yn dibynnu ar ymgysylltu digonol a data ystyrlon gan y fasnach drwyddedig. Roedd y cyfarfod cychwynnol gyda deiliaid trwydded ym mis Tachwedd 2023 wedi bod yn gynhyrchiol ond roedd angen mwy o wybodaeth, yn enwedig gan berchnogion/gyrwyr a'r rhai hunangyflogedig.

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Irving fod y cais am gynnydd mewn prisiau wedi tarddu o un perchennog tacsi gyda chyfran fawr o'r fasnach yn erbyn cynnydd. Tynnodd sylw hefyd at yr effaith negyddol y byddai cynnydd yn ei gael ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn anuniongyrchol ar gyllidebau cludiant ysgol. Yn ei farn ef, adolygu'r gyfrifiannell prisiau fyddai'n darparu'r sail orau ar gyfer cyfrifo prisiau tocynnau yn y dyfodol. O ganlyniad, cynigiodd y Cynghorydd Irving y dylid cadw'r tabl prisiau presennol wrth aros am ganlyniad adolygiad y gyfrifiannell prisiau, a chyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried. Eiliodd y Cynghorydd Joan Butterfield y cynnig, gan ddweud na allai gefnogi codiad pris ar hyn o bryd.

Yn ystod y ddadl a ddilynodd, heriwyd y cyfeiriad at unrhyw effaith o gynnydd mewn prisiau ar gyllidebau cludiant ysgol o ystyried bod ffi benodol wedi'i negodi yn yr

achosion hynny.  Adroddodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd ar y gofyniad i gerbydau hacni sy'n gweithredu fel cerbydau hurio preifat yn Sir Ddinbych yn unig weithredu o dan y tariff uchaf.  Er y deallwyd bod prisiau contract cludiant ysgol presennol yn sefydlog, roedd yn debygol y byddai cost contractau yn y dyfodol yn ystyried unrhyw gynnydd yn y tariff a bennir.  Nid oedd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yn ystyried y dylid ystyried y mater wrth ddod i benderfyniad, o ystyried bod pris cytundebau ysgol yn cael ei drafod.  Cododd y Cynghorydd Ellis hefyd y posibilrwydd y byddai'r Cyngor yn rhoi'r gorau i bennu tariffau cerbydau hacni, o blaid y fasnach tacsis yn gosod eu tariffau eu hunain i adlewyrchu costau gweithredu unigol, yn enwedig o ystyried y gwahaniaethau enfawr yn y taliadau tariff ar draws y wlad gan gynnwys amrywiadau rhanbarthol.  Cadarnhaodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd fod y ddeddfwriaeth ond yn nodi y gallai'r Cyngor gyflwyno tabl prisiau.  Fodd bynnag, roedd gan bron bob cyngor yn y DU dabl taliadau tariff a byddai adolygiad y gyfrifiannell prisiau yn rhoi syniad yn seiliedig ar gostau ac amgylchiadau lleol perthnasol gyda mwy o gynghorau'n defnyddio'r fethodoleg honno i ddarparu proses gadarn ar gyfer gosod prisiau. Derbyniwyd gwahaniaethau ar draws y wlad o ystyried amrywiadau rhanbarthol ac amgylchiadau lleol.

Trafododd yr Aelodau ymhellach y cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Irving a phwysigrwydd ymgysylltiad ystyrlon a chynrychioliadol o'r fasnach drwyddedig er mwyn i'r gyfrifiannell tariffau fod yn effeithiol. Y gobaith oedd y gellid gwneud gwaith mewn modd amserol.  Rhoddodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd sicrwydd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i ymgysylltu â'r fasnach, gan sicrhau data digonol i roi syniad cywir o'r costau a methodoleg gadarn ar gyfer y gyfrifiannell prisiau.  Gellid dod â’r mater yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024 i gynnwys cymariaethau tariff â chynghorau eraill ar draws Gogledd Cymru hefyd.

Ailddatganodd y Cadeirydd y cynnig, ac o’i roi i’r bleidlais:

***PENDERFYNWYD**, drwy bleidlais fwyafrifol, cadw’r tabl ffioedd presennol wrth aros am ganlyniad yr adolygiad o’r gyfrifiannell ffioedd a chyfeirio’n ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn ei ystyried.*

**6 I AMLINELLU GOFYNION TRWYDDED GORFODOL AR GYFER TRINIAETHAU ARBENNIG**

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Diogelu’r Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn amlinellu goblygiadau gofyniad arfaethedig y Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Triniaethau Arbennig sydd i’w weithredu ym mis Mehefin 2024 fel rhan o ddarpariaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Roedd y cynllun trwyddedu newydd yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgareddau a oedd yn tyllu'r croen, fel tatŵio, tyllu ac aciwbigo, gael trwydded i weithredu; byddai'r drefn yn dod o dan strwythurau’r Pwyllgor Trwyddedu. Ceir manylion y gweithgareddau cyfredol a gwmpesir gan y ‘gweithdrefnau arbennig’.

Rhoddwyd rhywfaint o gefndir i'r ddeddfwriaeth a'r bwriad i leihau risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau hynny.  Roedd y cynllun trwyddedu newydd yn

cynnig disodli’r system gofrestru bresennol o dan Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1982 a chydymffurfio ag Is-ddeddfau Cyngor Sir Ddinbych, er mwyn dod â gweithdrefnau tyllu’r croen i gyfundrefn drwyddedu fwy strwythuredig y gellir ei gorfodi’n gyfreithiol, gyda chanllawiau cysylltiedig. Hysbyswyd yr aelodau o brif ofynion y cynllun, y sefyllfa bresennol, a goblygiadau'r cynllun trwyddedu arfaethedig ar gyfer triniaethau arbennig a'r Pwyllgor Trwyddedu. Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn y broses o lunio dogfen ymgynghori, y disgwyliwyd ym mis Rhagfyr 2023, yn amlinellu eu disgwyliadau o ran llywodraethu, a byddai’n cael ei rhannu gydag aelodau pan fyddai ar gael. Argymhellwyd bod aelodau'n aros am fwy o wybodaeth gan LlC a chymryd rhan mewn hyfforddiant ar-lein ar rôl y Pwyllgor Trwyddedu o fewn y ddeddfwriaeth newydd.

Roedd y Pwyllgor yn llwyr gefnogi'r ddeddfwriaeth newydd a'r gwaith o reoleiddio gweithgareddau o'r fath, o ystyried y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau hynny. Codwyd cwestiynau ynghylch yr amseriad mewn perthynas â chyflwyno'r cynllun trwyddedu, ynghyd â materion yn ymwneud â chapasiti ac adnoddau ar gyfer ei weithredu a'r trwyddedau sydd eu hangen.

Ymatebodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd i gwestiynau’r Aelodau fel a ganlyn –

- rhagwelwyd y byddai ymgynghoriad LlC ar y trefniadau llywodraethu yn cychwyn yn ystod mis Rhagfyr am gyfnod o amser nad oedd yn hysbys ar hyn o bryd. Felly, ystyriwyd y byddai'n ddoeth rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r aelodau, o ystyried efallai na fyddai canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mawrth a’r dyddiad gweithredu ym mis Mehefin 2024
- nid oedd dyddiad wedi’i bennu eto ar gyfer yr hyfforddiant ar-lein a argymhellir i aelodau, ond mae’n debygol y caiff ei gynnal ar ddechrau’r flwyddyn newydd - bydd rhybudd ymlaen llaw yn cael ei roi
- roedd ffioedd trwyddedu yn cael eu hystyried gan Weithgor ledled Cymru ac yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Er mai’r bwriad oedd y byddai’r ffioedd yn talu am yr amser a dreulir yn cyflawni’r swyddogaeth newydd, roedd yn annhebygol iawn y byddai incwm digonol yn cael ei gynhyrchu i gyflogi unigolyn
- disgwylir y byddai'n broses ymgeisio ar-lein, gyda'r rhan fwyaf o'r manylion yn cael eu cofnodi gan yr ymgeisydd, y broses weinyddol yn cael ei chynnal gan y tîm trwyddedu, a Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn cynnal archwiliadau
- roedd tua 50 o safleoedd wedi’u cofrestru ar gyfer tyllu’r croen ac 81 o ymarferwyr, a fyddai’n dilyn proses drosglwyddo i drwyddedu - i’w chaniatáu o fewn 9 – 12 mis i agor y broses ymgeisio ym mis Mehefin 2024. Y gobaith oedd y byddai llif cyson o geisiadau drwy’r amserlen honno.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *nodi cynnwys yr adroddiad ac aros am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru, ac*

*(b)* *i aelodau gymryd rhan mewn hyfforddiant ar-lein a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar rôl y Pwyllgor Trwyddedu o fewn y ddeddfwriaeth newydd.*

7 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2024**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a oedd wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw) ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â diweddariad ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2024.

Roedd blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi trwyddedai yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi. Roedd y rhaglen waith wedi'i drafftio gan ystyried polisïau perthnasol a dyddiadau adolygu, ynghyd ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol posibl a gynigiwyd. O ystyried bod gwaith Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn: Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) yn mynd rhagddo, ni chyfeiriwyd ato yn y rhaglen waith. Fodd bynnag, unwaith y byddai canlyniad y gwaith hwnnw'n hysbys, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai adroddiad ar adolygiad y gyfrifiannell prisiau, fel y cytunwyd yn gynharach ar y rhaglen o dan eitem 5, yn cael ei ychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Mawrth.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a) nodi cynnwys yr adroddiad, a*

*(b) chymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2024 fel yr amlinellir yn Atodiad A yr Adroddiad.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei fod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

8 **CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 572108**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â'r canlynol –

(i) cais a dderbyniwyd am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 572108;

(ii) penderfyniad swyddogion i atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu arno oherwydd amgylchiadau penodol yr achos;

(iii) bod yr Ymgeisydd wedi cael euogfarn ym mis Medi 2016 am yrru cerbyd modur â gormodedd o alcohol, ac euogfarn ym mis Ebrill 2017 am

ddefnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, difrïol neu sarhaus gyda'r bwriad o achosi ofn neu fygwth trais, yr oedd y ddau wedi'u datgan gan yr Ymgeisydd a'i gadarnhau yn dilyn y gwiriadau arferol;

(iv) gwybodaeth bellach ynghylch yr achos gan gynnwys esboniad yr Ymgeisydd ynghylch amgylchiadau'r euogfarnau a gwybodaeth gefndir, a bod yr Ymgeisydd ar hyn o bryd yn dal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gydag awdurdod lleol arall, a roddwyd ym mis Tachwedd 2021;

(v) ystyried polisi'r Cyngor ynghlwm â pherthnasedd euogfarnau a pha mor addas yw ymgeiswyr; ac

(vi) gwahoddwyd yr Ymgeisydd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r cais ac i ateb cwestiynau'r Aelodau wedi hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol, ynghyd â'i gyflogwr, a chadarnhaodd ei fod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (NS) yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi'i drwyddedu fel gyrrwr gydag awdurdod lleol arall ers dros ddwy flynedd, ac eglurodd y rhesymeg y tu ôl i'w gais i yrru yn Sir Ddinbych sef sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. O ran y ddwy euogfarn, yr oedd bellach yn berson gwahanol, a rhoddodd sicrwydd ei fod yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar drwydded.

Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau'r aelodau, gan egluro'r cefndir iddo gymryd swydd fel gyrrwr trwyddedig ac ymhelaethu ar ei waith tacsi (yn ystod y cyfnod hwn nodwyd y gallai yrru i Sir Ddinbych ar ôl talu tâl ar hyn o bryd). Pe bai'r aelodau o blaid caniatáu'r cais, byddai'n rhoi'r cyfle i'r Ymgeisydd barhau i weithio yn ei swydd bresennol a hefyd yn ychwanegu at yr incwm hwnnw gyda gwaith penwythnos ac i gyflenwi ar gyfer gyrwyr trwyddedig eraill. Ymhelaethodd hefyd ar amgylchiadau'r ddwy euogfarn, gan gadarnhau ei ble euog, ynghyd â throsedd moduro TS10 ym mis Mawrth 2023.

Wrth wneud datganiad terfynol, diolchodd yr Ymgeisydd i'r aelodau am y cyfle i gyflwyno ei achos ac ailadroddodd ei fod yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded.

Gohiriwyd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a -

***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais ar gyfer trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 572108.*

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr aelodau wedi ystyried amgylchiadau penodol yr achos yn ofalus, fel yr oeddent i'w gweld yn yr adroddiad, ynghyd â chyflwyniadau'r Ymgeisydd a'i atebion i gwestiynau. Roedd yr aelodau hefyd wedi ystyried yr adrannau perthnasol yn

Natganiad Polisi'r Cyngor ynghylch addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y masnachau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr Ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded, a daeth i'r casgliad bod amgylchiadau eithriadol a rhesymau cyfiawn dros wyro oddi wrth y polisi ar yr achlysur hwn. Caniatawyd y drwydded yn seiliedig ar y canlynol -

- yr amser a aeth heibio ers yr euogfarnau ac ymddygiad da ers hynny
- y ffaith bod amgylchiadau personol yn ymwneud â'r euogfarnau
- y ffaith ei fod wedi pledio'n euog ac wedi cydnabod ei gamgymeriadau
- y ffaith ei fod wedi cwblhau ei gwrs ymwybyddiaeth gyrrwr yn llwyddiannus
- y ffaith ei fod yn dal trwydded gydag awdurdod cyfagos ar hyn o bryd, yr ymddengys ei fod yn cadw at y rheolau heb unrhyw broblemau am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

## 9 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 550166

[Datganodd y Cynghorydd Brian Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon oherwydd iddo ddod yn ymwybodol ei fod yn adnabod y Gyrrwr. Wedi hynny, gadawodd y cyfarfod cyn y cam penderfynu heb gymryd unrhyw ran yn y trafodaethau.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ynglŷn â'r canlynol –

(i) addasrwydd Gyrrwr Rhif 550166 i ddal trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, yn dilyn cwyn ynghylch defnydd cyffuriau a phrawf cyffuriau ochr ffordd positif a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ym mis Hydref 2023;

(ii) penderfyniad swyddogion i atgyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu arno oherwydd amgylchiadau penodol yr achos;

(iii) gwybodaeth gefndir a ddarparwyd gan gynnwys manylion y gŵyn a datgeliad ysgrifenedig gan Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd â nodiadau disgrifiadol o gyfweliad gyda Gyrrwr Rhif 550166;

(iv) ystyried polisi'r Cyngor ynghlwm â pherthnasedd euogfarnau a pha mor addas yw ymgeiswyr; ac

(v) gwahoddwyd y Gyrrwr i fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r cais ac i ateb cwestiynau'r Aelodau wedi hynny.

Roedd y Gyrrwr yn bresennol, ynghyd â pherthynas iddo, a chadarnhaodd ei fod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi (KB) yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Dywedodd y Gyrrwr nad oedd ganddo ddim byd arall i'w ychwanegu at fanylion yr adroddiad ond rhoddodd sicrwydd nad oedd wedi defnyddio cyffuriau ers mis Mehefin 2022 ac na allai roi cyfrif am ffynhonnell y gŵyn. Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, eglurodd y Gyrrwr eto yr amgylchiadau yn ymwneud â'r prawf cyffuriau positif ar ochr y ffordd, ac ymdrechion aflwyddiannus i gael prawf gwaed tra'r oedd yn y ddalfa gan arwain at absenoldeb sampl gwaed; parhaodd i wadu ei fod wedi cymryd unrhyw gyffuriau y diwrnod hwnnw, gan ddisgrifio dull y prawf cyffuriau ymyl ffordd. Esboniodd fod canlyniad y prawf wedi bod yn bositif oherwydd bod gweddillion wedi'i drosglwyddo gydag arian, bwyd neu wrth ysmygu; ymhelaethodd ar ei amgylchiadau personol yn ystod mis Mehefin 2022 a defnydd blaenorol o gyffuriau ynghyd â'i gyfnod adsefydlu. Gwadodd unrhyw gaethiwed i gyffuriau; esboniodd yr amgylchiadau pan y'i rhyddhawyd o'r ddalfa a chadarnhaodd nad oedd wedi clywed gan yr Heddlu ers iddo gael ei arestio a'i fod wedi cael gwybod na fyddai unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Ymatebodd y Swyddog Gorfodaeth hefyd i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â sail cynnal prawf cyffuriau ymyl ffordd, gan gynnwys ar gyfer trosedd traffig moduro yn unig, heb unrhyw ddangosyddion eraill yn angenrheidiol.

Gohiriwyd y Pwyllgor i ystyried yr achos a chododd yr aelodau gwestiynau pellach. O ganlyniad, galwyd pawb yn ôl er mwyn gallu gofyn eu cwestiynau. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Gorfodaeth sail ei gwestiynau yn ystod y cyfweliad o ran y tebygolrwydd o drosglwyddo gweddillion cyffuriau; cadarnhaodd nad oedd y prawf cyffuriau ymyl ffordd yn rhoi unrhyw arwydd o'r union lefelau a ganfuwyd; nid oedd unrhyw awgrym bod y Gyrrwr wedi gwrthod cymryd prawf gwaed; cadarnhawyd y byddai Nyrs Cyffuriau yn y ddalfa yn cymryd y sampl gwaed ac y gallai benderfynu peidio â bwrw ymlaen ar ôl ymdrechion aflwyddiannus mewn amgylchiadau penodol; gofynnwyd am fwy o wybodaeth gan yr Heddlu ynglŷn â'r achos a dywedasant na ellid ei darparu am resymau gweithredol. Cadarnhaodd y Gyrrwr ei fod yn parhau i yrru cerbydau trwyddedig.

Gohiriwyd y Pwyllgor eto ac, ar ôl trafodaethau pellach, galwyd pawb yn ôl eto i ofyn cwestiwn pellach ynghylch argymhellion yr adroddiad mewn perthynas â gosod amodau ar y drwydded. Cadarnhaodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd y gellid gosod amod ar gyfer cynnal prawf cyffuriau cyn gyrru ac i barhau am gyfnod o amser ar adegau priodol. Cadarnhaodd y Gyrrwr ei fod yn barod i wneud profion cyffuriau rheolaidd yn ôl yr angen.

Gohiriwyd y Pwyllgor eto i ystyried yr achos ymhellach.

Yn ystod y trafodaethau, roedd safbwyntiau cymysg ynghylch y gosb fwyaf addas yn yr achos hwn, a chynigiodd yr aelodau ei ddirymu a'i atal gydag amodau. O'i roi i bleidlais, ***COLLWYD*** y cynnig ar gyfer dirymu a ***DERBYNIWYD*** pleidlais arall dros atal gydag amodau. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *gohirio trwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat Gyrrwr Rhif 550166 am gyfnod o fis neu nes y bydd darparwr allanol cymwys yn rhoi canlyniad prawf cyffuriau negyddol i'r Adran Drwyddedu fel y cytunwyd rhwng y Swyddogion Trwyddedu a'r Gyrrwr. Yn ogystal, bydd amod yn cael ei osod ar*

*drwydded y Gyrrwr i sicrhau bod profion cyffuriau'n cael eu cynnal yn rheolaidd bob mis wedi hynny, am gyfnod o ddeuddeng mis.*

Dyma resymau'r Pwyllgor Trwyddedu dros y penderfyniad –

Roedd yr aelodau wedi ystyried amgylchiadau penodol yr achos yn ofalus, fel yr oeddent i'w gweld yn yr adroddiad, ynghyd â chyflwyniadau'r Gyrrwr, ei atebion i gwestiynau a mewnbwn Swyddogion Trwyddedu sydd â phrofiad perthnasol yn y maes hwn. Roedd yr aelodau hefyd wedi ystyried yr adrannau perthnasol yn Natganiad Polisi'r Cyngor ynghylch addasrwydd deiliaid trwydded yn y masnachau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, a'r prawf unigolyn cymwys ac addas.

Daeth y Pwyllgor i benderfyniad ar sail y rhesymau canlynol -

- y gŵyn ategol o natur debyg a gyflwynwyd ychydig cyn y prawf cyffuriau ymyl ffordd a fethwyd
- nid oeddent yn dystiolaethol fodlon gyda'r diffyg prawf gwaed gan Heddlu Gogledd Cymru
- codwyd pryderon gan aelodau ynghylch yr anghysondebau yn yr adroddiad, a oedd yn gwrth-ddweud rhywfaint o'r wybodaeth a roddwyd yn y cyfweliad ac yn y Pwyllgor.

Cafodd penderfyniad y Pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu felly i'r Gyrrwr a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 5 Mawrth 2024 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2024 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu am 2024.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu'n adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi Trwyddedeion yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.

3.2 Bydd Aelodau yn cofio yn y cyfarfod diwethaf yn Rhagfyr, y cytunwyd i ddod ag adroddiad arall yn ôl i'r cyfarfod hwn ar yr adolygiad o ffioedd cerbydau hacni yn dilyn canlyniad y gwaith cyfrifiannell ffioedd. Yn anffodus, oherwydd data annigonol a gafwyd gan y fasnach nid yw'n bosib ar hyn o bryd i ffurfio cyfrifiannell cywir ac effeithiol. Mae mwy o ddata gan ddeiliaid trwydded yn hanfodol ac mae Swyddogion yn trefnu

ymweliadau wyneb yn wyneb i annog mwy o ddeiliaid trwydded i gyflwyno data. Felly rhagwelir y gallwn ddiweddaru Aelodau yn y cyfarfod ym Mehefin.

3.3

O ganlyniad i sylw gan un o'n Gweithredwyr mwy i adolygu'r broses drwyddedu ar gyfer cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn, mae Swyddogion yn cynnig dod ag adroddiad i gyfarfod mis Mehefin ar gyfer ystyriaeth Aelodau. Ar hyn o bryd mae angen i gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn gyrraedd yr un meini prawf trwyddedu ag unrhyw gerbyd arall, fodd bynnag mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r cerbydau hyn yn llawer uwch na cherbyd nad yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae adolygiad o'r broses gyfredol yn cael ei gefnogi gan Gludiant Ysgol Sir Ddinbych gan eu bod wedi amlygu'r angen ar gyfer cerbydau hygyrch i
3.4 gadeiriau olwyn ychwanegol ar gyfer contractau ysgol.

Trefnwyd adroddiad ar adolygiad o'r Polisi Eithrio Platiau Hurio Preifat, fodd bynnag, roedd Swyddogion yn teimlo ei bod yn fwy priodol ail-drefnu'r eitem hon i'w chynnwys gyda'r adolygiad o Bolisi ac amodau
3.5 Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a drefnwyd ar gyfer mis Rhagfyr.

Bwriadwyd cyflwyno adroddiad diweddaru pellach ar ddeddfwriaeth Gweithdrefnau Arbennig i Aelodau, fodd bynnag, ni fu unrhyw ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf yn Rhagfyr, ac felly cynigir ail-
3.6 drefnu'r eitem hon ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Gweler Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol diwygiedig yn Atodiad A i gynnwys y
4. materion uchod.

4.1 **ARGYMHELLIAD**

4.2 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad, ac

Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a ddiweddarwyd y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer 2024.

**Atodiad A**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2024**

| Dyddiad y Pwyllgor | Adroddiad | Sylw |
|---|---|---|
| **5 Mehefin 2024** | Tariff Cerbydau Hacni | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn adolygiad Cyfrifiannell Methodoleg |
| | Gweithdrefnau Arbennig | Adroddiad diweddaru ar ddeddfwriaeth newydd |
| | Adolygu gofynion trwyddedu cyfredol cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn | Adolygu arferion cyfredol |
| **11 Medi 2024** | Adolygu'r Polisi Casglu ar y Stryd | Adolygu'r polisi presennol |
| | Adolygu'r Polisi Casglu o Dŷ i Dŷ | Adolygu'r polisi presennol |
| | Hyfforddiant Aelodau | Sesiwn hyfforddiant ar ddiweddariadau i ddeddfwriaeth a hyfforddiant diweddaru |
| **4 Rhagfyr 2024** | Adolygu Polisi ac Amodau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat | Adolygu'r polisi presennol |
| | Adolygu Polisi Eithrio Platiau Cerbydau Hurio Preifat | Adolygu'r polisi presennol |
| | Adolygiad o Bolisi Defnydd Arfaethedig Cerbydau Hacni | Adolygu'r polisi presennol |
| SYLWER - mae'n bosibl y bydd rhaglen waith y Pwyllgor yn newid yn sgil materion brys yn ystod y flwyddyn. | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag